

DIDDOROL oedd darllen yn Rhif 30 o'r 'Casglwr' am yr "ymryson" rhwng chwech o "gantorian Arfon". Daliodd y llinell olaf o'r ail bennill fy sylw:

"A Dafydd, gŵr hylaw, Dôl Helyg."

Gwyddwn fod traddodiad cerddorol yn perthyn i hen deulu Dôl Helyg, plwyf Llanrug, ac felly, dyma fynd ati i chwilota

Gan fod Dr Meredydd Evans yn dyddio'r ddau bennill i gyfnod rhwng tua 1750 a 1765, digon hawdd darganfod a oedd 'Dafydd' yn byw'n y Ddôl Helyg yn ystod y cyfnod hwn, oherwydd mae Cofrestrau Plwyf Llanrug yn enwi cartrefi trigolion o tua 1745. O fynd ati i bori ymhlith y Cofrestrau, cawn ddigon o dystiolaeth i brofi fod gŵr o'r enw David Roberts a'i deulu yn byw'n y Ddôl Helyg.

Daw'r cofnod cyntaf yn 1747 pan fedyddiwyd Richard, mab i David Roberts a'i wraig, Margaret Morris. Bu farw'r baban hwn yn ieuanc, oherwydd yn 1753 mae Richard arall yn cael ei fedyddio. Bu'r Richard David (neu Richard Dafydd) hwn fyw yn Dôl Helyg, yn ŵr di-briod, hyd ei farwolaeth yn 1818. Yn 1759 bedyddiwyd merch, Margaret, a gellir olrhain ei disgynyddion hi yn eithaf rhwydd.

Yn 1761 bu Margaret Morris farw, a gadawyd David (neu Dafydd) Roberts yn ŵr gweddwyd gyda (o leiaf) dau o blant ifanc. Nid syndod felly, yn ôl y drefn oedd ohoni, i ganfod cofnod o'i ail briodas flwyddyn yn ddiweddarach gyda merch o'r enw Elizabeth. Yn y cofnod

DAFYDD WHITESIDE THOMAS a Datgeiniaid Llanllyfni a Cherddorion Llanrug

priodas hwn, mae David Roberts yn cael ei ddisgrifio fel "yeoman". Ganed tri o fechgyn o'r ail briodas, sef William Dafydd (1763-1808), Griffith Dafydd (1766-1799) ac Owen Dafydd (1772-?).

Bu David Roberts farw yn 1789 a chladdwyd ef ym mynwent eglwys Llanrug. Yn anffodus, ni chofnodir ei oedran ar ei farwolaeth, ond gan iddo fod yn briod am dros ddeugain mlynedd (cyfanswm blynedd oedd ei ddwy briodas), mae'n sicr o fod dros ei drigain oed yn marw. Roedd felly yn ŵr ifanc tua deg ar hugain oed pan ddaeth y gwahoddiad iddo i'r "ymryson" yn Llanllyfni.

METHAIS a darganfod unrhyw wybodaeth bellach amdano, nac am ei ail wraig, Elizabeth. Ond mae'r wybodaeth am ei ferch ac am ddau o'i feibion yn awgrymu eu bod o'naws gerddorol.

A hithau'n ddeunaw oed ym mlwyddyn y tair caib, priododd y ferch, Margaret Dafydd, ag Owen Pritchard (1752-1830). Dair blynedd wedi'r briodas daeth Owen Pritchard yn Glerc Plwyfol Llanrug, a pharhaodd yn y swydd honno hyd ei farwolaeth: "a strictly honest man, and a person greatly

beloved in his life and lamented on his Death" fel yr ysgrifennodd Peter Bailey Williams, Rheithor y Plwyf gyferbyn â chofnod ei gladdu.

Yr oedd i Glerc y Plwyf yn y cyfnod hwn rai dyletswyddau 'cerddorol'! (fe'u diddymwyd mewn Deddf Seneddol yn 1840) Roedd y rhain yn cynnwys canu'r anthem (yn uchell!) ar ddiwedd pob gweddi, arwain y salm (ac weithiau'r anthem), a tharo nodyn ar gyfer tôn y salm ar y cyweirgorn. Weithiau byddai'n arwain y côr, os oedd un yn perthyn i'r eglwys.

Gwyddom fod côr eglwys yn Llanrug ar ddiwedd y ddeunawfed ganrif a dechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg, a bod dau deulu yn enwedig, yn gysylltiedig â'r côr. Y teuluoedd hyn oedd teulu Dôl Helyg, a theulu Nantal Gwyn.

Gyferbyn â chofnod claddu rhai o'r teuluoedd hyn ceir "one of the psalm singers". Nid oes dystiolaeth i brofi a oedd Owen Pritchard yn cario allan ddyletswyddau 'cerddorol' ei swydd, ond yr oedd wedi priodi i deulu a oedd yn aelodau o'r côr eglwys.

Arweinydd côr eglwys Llanrug oedd Griffith Pritchard, Nantal Gwyn. Ganed ef yn 1751, yn fab i Richard Griffith a Jane. Priododd Griffith Pritchard â Magdalen Thomas (tua 1781?), a ganed iddynt saith o blant. Daeth y pumed plentyn, Thomas Griffith (1790-1859), yn arweinydd y côr ar ôl ei dad.

Tyddyn bychan yn ardal Pontrug o'r plwyf oedd Nantal Gwyn: mae'r tŷ wedi llwyr ddiflannu bellach, a'r tir wedi ei lyncu gan fferm Plastirion. Yn ôl traddodiad, reodd Nantal Gwyn yn ganolfan lle'r arferid cynnal nosweithiau llawen a chyfeddach yn yr hen amser. Tybed a fu "ymryson" yno?

Roedd y tyddyn yn agos hefyd at un o lwybrau'r porthmyn - roedd lle dyfrio i wartheg ar afon Gwna ger Caethro, a gerllaw, ar afon Saint roedd Pont Rug lle gellid croesi cyn parhau am Llanddeiniolen a Phentir. Doedd Plastirion a'r Crug ddim ymhell chwaith, sef cartrefi teulu Rowlands; tîrfeiddianwyr a bancwyr. Gallai Nantal Gwyn fod yn ganolfan i gerddorion a phorthmyn yn y cyfnod hwn.

Erbyn 1798 roedd teulu Griffith Pritchard wedi symud o'r Nantal Gwyn i rannau uchaf y plwyf, i ardal y Bryngwyn. Yno, roeddynt wedi sefydlu

tafarn neu dŷ cwrw. Nid oedd ffermdy Dôl Helyg yn bell iawn o'r cartref newydd hwn. Pan sefydlodd Griffith Pritchard a Magdalen Thomas yn y Bryngwyn, roedd Thomas Griffith, y pumed plentyn, tua wyth mlwydd oed.

Tua'r un cyfnod roedd William Dafydd (mab hynaf David Roberts, Dôl Helyg, o'i ail briodas) wedi priodi a Jane Jones, ac yn byw yn y cartref. Yn 1794 ganed iddynt eu hail blentyn, sef Griffith William. Roedd Griffith William a Thomas Griffith tua'r un oedran ac yn ffrindiau agos.

PRIODODD Thomas Griffith a Jonette Owens yn 1817, a ganed iddynt bedwar o blant. Yr hynaf o'r rhain oedd Robert Thomas. Pan fedyddiwyd Robert yn eglwys Llanrug, ei dad bedydd oedd Griffith William, Dôl Helyg. Thomas Griffith oedd arweinydd y côr eglwys erbyn hyn, a Griffith William yn aelod o'r côr hwnnw.

Dangosodd Robert Thomas yn gynnar fod gallu cerddorol ganddo, a derbyniodd wersi gan ei dad ei hun, a hefyd gan ei dad bedydd, a ddysgodd "ramadeg cerddoriaeth Foulk Roberts" iddo. Yn ôl traddodiad, dechreuwyd rhoi gwersi cerddoriaeth i Robert Thomas pan oedd tua wythmlwydd oed oherwydd iddo ddangos fod clust a chwaeth am gerddoriaeth ganddo. Dywedir ei fod yn dysgu ar ei gof unrhyw dôn a glywai'n yr eglwys, a'i chanu'n gywir ar ôl dod adref - a hynny cyn bod yn bump oed.

Datblygodd offerynwyr côr eglwys Llanrug i ddod yn sylfaenwyr Band Llanrug tua 1830: o bosibl y band hynaf yng ngogledd Cymru. Mae traddodiad yn adrodd fod Griffith William (ŵyr i "ŵr hylaw Dôl Helyg") yn aelod o'r band hwn, ac yn un o'i arweinyddion cyntaf. Mewn amser, daeth Robert Thomas, ei ddisgybl, yn aelod ac yn arweinydd y côr eglwys, a hefyd yn aelod ac arweinydd y band.

Dywedir ei fod yn gallu chwarae amrywiaeth o offerynau, gan gynnwys y fflwt, y cornet a'r 'saxhorn' (a ddatblygwyd gan Adolphe Sax yn Ffrainc tua 1840). Yn 1901, dywedir fod Robert Thomas wedi bod yn aelod o'r côr eglwysig am wyth deg o flynyddoedd (yn arweinydd am 53 mlynedd) ac yn aelod o'r band am 54 mlynedd.

Diddorol yw nodi mai "gramadeg cerddoriaeth Foulk Roberts" a ddysgwyd iddo gan ei athro, Griffith William. Brodor o Lanllyfni oedd y Foulk Roberts hwn, ac athro cerddorol arall ei gyfnod. Ond stori arall yw hanes Ffowc Bach y Cantwr.

O dud 18

Y llufr mwyn, a llawer mawl
Ar drwch cred, Druch
Christnogawl.

Ar t.147 ail-adroddid mai "tri chwarter blwyddyn" a gymerodd i brintio'r llyfr.

I GRYNHOI stori gymhleth. Y mae'n debyg y dechreuwyd argraffu Y Drych Cristnogol yn Rouen - dyna pam mae'r dyddiad 1585 ar y dudalen deitl. Anfonwyd gweddill y llyfr i Riwlodyn lle roedd gwasg yn barod. Ymdrech Iarll Penfro oedd rhoi'r hwb i orffen y gwaith ar frys. Gwaith yr offeiriad - y 'recusants' y cyfeiriwyd atynt yn llythyr William Griffith oedd gwylid gorffen y gwaith, casglu copïau y llyfr ar gyfer dosbarthu ar hyd a lled Cymru.

Ar noson y chwalu tynnwyd y wasg bren yn dipiau a'i rhoi ynghyd â'r casau o deip ar gychod a diflannu efo'r offeiriad-grefftwyr i argraffu yn rhywle arall.

Beth oedd pwysigrwydd argraffu Rhiwlodyn? Dyma'r

argraffwasg gyntaf ar dir Cymru - felly mae Ebrill 1987 yn cynrychioli Pedwar Canmlwyddiant argraffwasg Rhiwlodyn. Yn ail: Bu helynt argraffu Rhiwlodyn yn llaw-forwyn y mudiad dirgel i baratoi llenyddiaeth ar gyfer Cymry yn eu hiaith - rhoi athrawiaeth yr 'hen ffydd' o flaen y werin oedd yn sialens i'r awdurdodau a'r Eglwys Brotestanaidd.

Gwasg ddirgel Rhiwlodyn a'i chynnyrch, er mor fechan ydoedd, a arweiniodd at y caniatâd a roddwyd i gyfieithiad William Morgan Y Beibl-Cyssegr-Lan (1588). Argraffwyd Beibl Cymraeg 1588 o dan nawddogaeth yr Archesgob Whitgift fel y cydnabu Morgan yn ei ragymadrodd. Printiwyd gan weision yr argraffydd Brenhinol, Christopher Barker.

Teimla nifer ohonom bod ymdrechion argraffwyr Rhiwlodyn yn haeddu coffadwriaeth trwy dabled neu blac dwy-ieithog yn gyfagos i ffordd y Gogarth Bach a arweinia at Greigiau Rhiwlodyn a'i ogofeydd.